

## PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 10 MEDI 2019

Yn bresennol: Hugh Thomas (Cadeirydd)  
Gavin McArthur a/ac David Price  
Y Cynghorwyr Cunnah, Goddard, Howells, Lister, McKerlich  
a/ac Williams

### 24 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ian Arundale.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr Lister a McKerlich i'w cyfarfod Pwyllgor Archwilio cyntaf, a nododd werthfawrogiad o wasanaethau'r Cynghorydd Bale, a oedd wedi sefyll i lawr yn ddiweddar fel Aelod o'r Pwyllgor.

### 25 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol:

Cynghorydd Cunnah	Eitem 4	Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Pwll Coch
Cynghorydd Lister	Eitem 4	Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Grangetown
Cynghorydd Howells	Eitem 4	Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Adamsdown ac Ysgol Gynradd Stacey
Cynghorydd McKerlich	Eitem 4	Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Radur
Cynghorydd Williams	Eitem 4	Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol The Hollies ac Ysgol Oakfield Aelod o Fforwm Cyllid yr Ysgol

### 26 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2019 yn gofnod cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

### 27 : CYFARWYDDWR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES, NICK BATCHELAR – ADRODDIAD BLYNYDDOL AR LYWODRAETHU YSGOL, BALANSAU A DIFFYGION

Croesawodd y Pwyllgor Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Addysg, a Neil Hardee, Pennaeth Gwasanaethau i Ysgolion i gyflwyno diweddariad mewn perthynas â llywodraethu ysgolion, diffygion a balansau.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod y Tîm Rheoli Addysg (TRhA) yn cyfarfod yn wythnosol ac yn darparu'r fforwm ar gyfer cydlynu dull sicrhad y gyfarwyddiaeth. Mae'r TRhA yn derbyn ac yn trafod pob adroddiad archwilio ysgol a dadansoddiad o'r gwaith sy'n cael ei wneud trwy'r broses Ysgolion sy'n Achos Pryder. Cyfeiriwyd hefyd at y dull a gymhwysir bob hanner tymor, i swyddogion o bob rhan o'r awdurdod

gwrdd â chydweithwyr o Gonsortiw m Canolbarth y De i nodi a thrafod materion unigol sy'n gysylltiedig ag ysgolion a ffurfio barn ynghylch a oes angen cefnogaeth neu ymyrraeth ychwanegol ar ysgolion unigol. Cyfeiriwyd at yr ymyriadau yn Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr, ar ôl derbyn adroddiadau Arolygu ac Archwilio Estyn anffafriol.

Dywedwyd wrth yr aelodau mai'r gyllideb flynyddol net ar gyfer ysgolion yng Nghaerdydd oedd £241.344 miliwn yn 2019/20. Mae cyfran fawr o'r gyllideb flynyddol net yn cael ei dirprwyo i'r 127 ysgol yn y Ddinas ac mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn chwarae rhan allweddol yn y ddeialog ddeallus sy'n datblygu rhwng yr awdurdod lleol a'i ysgolion ar faterion cyllidebol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o falansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2019, ynghyd â balansau'r ysgolion am y pum mlynedd flaenorol. Mae lefel gyffredinol y balansau sydd gan ysgolion wedi gostwng o £7.319 miliwn ar 31 Mawrth 2018 i £5.658 miliwn ar 31 Mawrth 2019.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod 44 o ysgolion â balansau sy'n fwy na'r trothwy a argymhellir gan Lywodraeth Cymru, a gofynnwyd i'r Cadeirydd Llywodraethwyr priodol ddarparu cyfiawnhad a disgrifiad o'r defnydd a gynlluniwyd ar gyfer y balans yn 2019/20. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd bod 12 ysgol yn cario balans diffyg ymlaen i 2019/20, y mae gan bob ysgol gynllun ariannol tymor canolig ar waith yn dangos sut y bydd yn lleihau ei diffyg, a swyddog monitro i gefnogi'r corff llywodraethu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth yr Aelodau fod gormod o ysgolion yn cael eu hasesu fel rhai llai na boddhaol trwy adroddiadau archwilio mewnol, a bydd y pwerau ymyrraeth yn cael eu gweithredu pan fydd angen hynny ar gyfer ysgolion sydd â rheolaeth ariannol wael a llywodraethu gwael. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd y byddai canllawiau ar gyfer clerod y Corff Llywodraethol yn cael eu cryfhau i gefnogi cydymffurfiaeth mewn meysydd llywodraethu.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwr wneud sylwadau ar yr adroddiadau archwilio yr oedd barnau amdanynt ynghylch 'angen gwelliant mawr'. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod meysydd cyffredin y mae angen eu gwella yn cynnwys materion cydymffurfio, megis llywodraethwyr yn cwblhau hyfforddiant gorfodol, a pholisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n briodol. Rhoddir ystyriaeth i gryfhau rôl y Clerc i'r Corff Llywodraethol i gefnogi gwelliannau.
- Nododd Aelod fod taliadau'r Clerc i'r Corff Llywodraethol yn gymharol isel, a gofynnodd, o ystyried yr arwyddocâd ychwanegol sy'n cael ei roi ar y rôl, a oedd cynlluniau i sicrhau bod pobl â sgiliau addas yn cael eu recriwtio. Dywedwyd wrth yr Aelod fod rôl y clerod yn sylfaenol i reoli themâu rheolaidd y gwelliant llywodraethu gofynnol, a bod gan Gyrrff Llywodraethu ddisgresiwn o ran tâl ar gyfer Clerod. Atgoffwyd y Pwyllgor mai rôl y Clerc yw cefnogi Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth sydd â'r prif gyfrifoldeb am faterion llywodraethu.
- Nododd Aelod sylwad, pan fydd Clerc i'r Corff Llywodraethol hefyd yn gyflogai ysgol, y gallai fod gwrthdaro buddiannau. Derbyniodd y Cyfarwyddwr y gallai

fod risg os nad oes graddau o wahanu mewn ysgolion.

- Gofynnodd Aelod a oedd cysylltiad rhwng diffyg cydymffurfio o ran hyfforddiant gorfodol a phresenoldeb yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei bod yn amlwg bod cysylltiad, ac y bydd hyfforddiant a phresenoldeb gorfodol yn parhau i gael ei fonitro trwy'r Corff Llywodraethol perthnasol.
- Gofynnodd yr aelodau a yw'r opsiwn i adennill neu wario balansau dros ben wedi'i gymhwyso, a dywedwyd wrthynt nad yw'r opsiwn wedi'i weithredu hyd yma. Nodwyd bod 18 ysgol wedi dal balansau sydd dros y trothwy a ganiateir am 3 blynedd. Mae'r ysgolion hyn wedi cael eu cyfarwyddo i ddefnyddio'r balansau hynny y gostyngodd 4 ysgol eu balansau i fod yn is na'r trothwy. Bydd yr awdurdod yn cwrdd â Chadeiryddion a Phenaethiaid yn yr ysgolion sy'n weddill i drafod y defnydd arfaethedig o'r balansau hyn.
- Dywedodd Aelod fod y system gyllideb ddirprwyedig yn seiliedig ar reolaeth ariannol gadarn, gwybodaeth gyllideb o ansawdd da ac ansawdd Penaethiaid a Chadeirydd y Corff Llywodraethol. Gofynnodd yr Aelod ar ba bwynt y byddai angen 'adolygiad system gyfan'. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y materion thematig a nodwyd trwy archwilio, yn nodi materion llywodraethu a chydymffurfiaeth, ac nid effeithiolrwydd y system ddirprwyedig. Dywedwyd wrth yr aelodau nad yw'r materion a nodwyd yn unigryw i Gaerdydd nac Ysgolion Caerdydd. Mewn rhai ysgolion cynradd llai bu pryderon ynghylch eu gallu i reoli cyllid, a chyflawni'r ystod gywir o sgiliau i'r rheini sydd ar gyrff llywodraethu, ond nid yw hyn yn cyfiawnhau symud i system wahanol.
- Gofynnodd yr aelodau pa sicrwydd y gellid ei roi bod y cyllidebau a ddarperir yn cyflawni Gwerth am Arian (GAM). Dywedodd y Cyfarwyddwr fod arian yn cael ei ddefnyddio i ddarparu addysg o safon, y mae Caerdydd yn perfformio'n dda o ran hynny ac mae'n parhau i gryfhau. Mae GAM yn gwella ond mae angen iddo wella ymhellach, sy'n hanfodol gan fod cyllidebau'n lleihau.
- Gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr ddarparu amserlen benodol ar gyfer datrys mater ysgolion sy'n dal balansau dros ben am 3 blynedd. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r 14 ysgol, sy'n dal i fod yn uwch na'r trothwy, yn cael eu gwahodd i drafod y mater cyn gwyliau hanner tymor mis Hydref. Yna bydd y Cyfarwyddwr a'r Swyddog Adran 151 yn ystyried gweithredu pellach.

PENDERFYNWYD – Bod y Pwyllgor Archwilio'n nodi cynnwys yr adroddiad.

## 28 : DIWEDDARIAD ARIANNOL LLAFAR GAN GYNNWYS MATERION GWYDNWCH

Darparodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ddiweddariad ariannol ar lafar o'r sefyllfa ariannol gan atgoffa'r Aelodau y byddai'r Datganiad Cyfrifon terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor, yn dilyn yr eitem nesaf ar yr agenda, i'w gymeradwyo ar 12 Medi 2019.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr adroddiad Monitro Cyllideb ar gyfer Mis 4 i fod i gael ei gyflwyno i'r Cabinet, a bydd y Cyfarwyddwr yn rhoi adborth i'r Pwyllgor

Archwilio fel y bo'n briodol. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd y byddai'r Cabinet yn derbyn adroddiad ar y broses gosod cyllideb.

## 29 : DATGANIAD CYFRIFON TERFYNOL 2018/19

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Gweithredol - Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys a chydweithwyr cyllid eraill i gyflwyno'r Datganiad Cyfrifon terfynol (DC) 2018/19, yn dilyn archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Daeth yr adroddiad yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio o'r Datganiad Cyfrifon drafft a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) yn ei gyfarfod ar 25 Mehefin 2019, a chyfnod ymgynghori i ganiatáu i Aelodau gyflwyno cwestiynau a sylwadau.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod pob camddatganiad DC wedi'i gywiro, a bod Swyddfa Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor llawn ar 12 Medi 2019. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd y byddai'r Cyngor yn adolygu amseriadau ei drefniadau ar gyfer archwilio a chymeradwyo ei gyfrifon yn y dyfodol, oherwydd y dyddiadau cau statudol cynharach i'w cyflwyno.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan y Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelod i swyddogion gadarnhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu cynghori am ddatblygiadau parhaus mewn perthynas ag ymchwiliad Cyllid a Thollau EM ym maes Rheoli Gwastraff. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid gadarnhad, a nododd Ann-Marie Harkin fod SAC yn fodlon â chyflwyniad y cyfrifon, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddaeth i law.
- Cynigiodd Aelod adolygiad i frawddeg yn Adroddiad Blynyddol y DLIB a'r Pwyllgor Archwilio. Roedd yr aelodau o'r farn bod y Pwyllgor wedi derbyn gwybodaeth yn y cyfarfod a oedd yn haeddu newid i'w datganiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, a chytunwyd ar y ddedfryd wedi'i haddasu ganlynl.

*'Eleni, er ein bod wedi derbyn sicrwydd a roddwyd trwy waith archwilio ar thema llywodraethu ysgolion, rydym yn dal i bryderu nad yw rhai ysgolion wedi cyflawni lefel foddhaol o stiwardiaeth a rheolaeth fewnol.'*

## PENDERFYNWYD -

- (1) Bod yr adrannau llywodraethu a chydymffurfiaeth ysgolion yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu diwygio i gynnwys yr adolygiad a amlinellir uchod;
- (2) Y dylid nodi'r Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## 30 : RHEOLI RISG CORFFORAETHOL (CHWARTER 1)

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pennaeth Cyllid, RhG - Strategaeth Gyllideb a Chynllunio Ariannol a'r swyddog arweinïol i gyflwyno'r adroddiad Rheoli Risg Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2019/20. Gofynnwyd i'r aelodau nodi y byddai 10

Risg Cyfarwyddiaeth yn cael eu dwyn ymlaen wrth i'r UDRh gynyddu risgiau ac fe'u cyfeiriwyd at y newidiadau i'r gofrestr risg gorfforaethol fel y'u crynhoir yn yr adroddiad.

Nododd yr aelodau mewn perthynas â'r sgoriau Risg Erydiad Arfordirol - Risg Cynhenid a Gweddilliol, roedd y sgoriau yr yn peth. Gofynnodd yr aelodau a roddwyd unrhyw ystyriaeth i liniaru'r risg hon neu a ystyriwyd lliniaru tymor byr. Atgoffodd y Rheolwr Archwilio y Pwyllgor, yn dilyn adolygiad â ffocws ar y risg hon ym mis Ionawr 2019, bod trefniadau'n cael eu gwneud i'r Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd fynychu cyfarfod pellach o'r Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau lliniaru sydd ar waith a'r rhai sy'n cael eu symud ymlaen.

Gofynnodd yr aelodau pa drefniadau oedd ar waith i reoli effaith Brexit o ran ystafell reoli/byncer canolog. Cyfeiriodd y Pennaeth Cyllid at y trefniadau Gorchymyn Arian/Gorchymyn Aur Rheoli Argyfwng ar waith y byddai ymateb Brexit yn cael ei gydlynu drwyddo.

Trafododd yr aelodau eu gofynion sicrwydd parhaus ar gyfer Brexit, a chynghorodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau y gall, fel Cyfarwyddwr Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb am barhad busnes, roi sicrwydd bod y Cyngor mewn sefyllfa dda o ran ei gynllunio a'i fod yn gwneud popeth o fewn ei allu i amddiffyn gwasanaethau. a defnyddwyr gwasanaeth. Cydnabuwyd bod angen sylw parhaus mewn perthynas â'r risg benodol hon o ystyried ei agosrwydd.

#### PENDERFYNWYD -

- (1) Y dylid nodi'r adroddiad;
- (2) Y dylai'r Cadeirydd ystyried rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio o ran derbyn sicrwydd parhaus mewn perthynas â Brexit.

#### 31 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD GWEITHGARWCH/ADRODDIAD SAC

Gofynnodd Ann Marie i'r Pwyllgor gadarnhau eu bod yn fodlon ar adroddiadau Archwiliad Datganiadau Ariannol SAC a oedd ynghlwm wrth eitem 5.2 ar yr agenda. Derbyniodd y Pwyllgor gynnwys adroddiadau SAC yn unfrydol.

Darparodd Sara Jane Byrne ddiweddariad cynnydd SAC.

#### 32 : ADRODDIAD PERFFORMIAD

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol - Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys, adroddiad ar wybodaeth am berfformiad a datganiad sefyllfa ar 31 Gorffennaf 2019.

Rhodddwyd diweddariad i'r aelodau am berfformiad mewn perthynas â benthycy a buddsoddiadau. Adroddodd y Rheolwr Gweithredol hefyd fod ansicrwydd ynghylch Brexit wedi creu rhai cyfleoedd o ran cyfraddau is ar gyfer benthycy.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd y byddent yn derbyn gwybodaeth am ganlyniad adolygiad annibynnol o weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn erbyn rheoliadau a chodau proffesiynol, yn ogystal â gweithgareddau meincnodi.

Gofynnodd Aelod am sicrwydd bod y lefelau benthyca cyfredol yn gynaliadwy. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai hyn yn dibynnu ar bwrpas y benthyca - buddsoddiad gwasanaeth tymor hir, buddsoddiad mewn asedau newydd er enghraifft tai Cyngor newydd er mwyn mynd i'r afael â'r angen am dai, benthyca ar gyfer enillion ar incwm ar gynilion o gynlluniau buddsoddi er mwyn arbed. Mae dangosyddion wedi'u nodi'n glir yn y gyllideb gan gynnwys cymarebau lleol. Caiff gwybodaeth gymharol ei chyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol yn erbyn Dinasoedd Craidd eraill y DU er mwyn helpu'r Pwyllgor i lunio barn.

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol i'r Aelodau ystyried, o ran cymhariaeth, nad yw pob awdurdod lleol yn berchen ar eu stoc dai eu hunain. Mae hynny'n cyflwyno patrwm gwahanol o ran benthyca. Er enghraifft, yn rhaglen fuddsoddi'r 5 mlynedd nesaf mae cyfanswm rhaglen fuddsoddi o dros £840 miliwn, ond bydd £300 miliwn o hwnnw yn Gyfrif Refeniw Tai ac felly bydd gwahaniaethau rhwng awdurdodau. Gallwn ystyried hyn o ran lefelau benthyca neu o ran lefelau buddsoddiad.

Gofynnodd yr aelodau ar ba bwynt y mae'r Cyngor yn cael ei wahardd rhag buddsoddi gyda benthyciwr os yw ei sgôr yn gostwng i lefel y tu allan i'r polisi. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y rhestr fenthyca wedi'i gosod ar ddechrau'r flwyddyn, gyda'r cyfraddau'n cael eu monitro'n ddyddiol, a'r holl fuddsoddiadau newydd yn seiliedig ar y lefelau graddio cyfredol.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol a'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitemau hyn.

Trafododd y Pwyllgor faterion a nodwyd yn yr atodiadau cyfrinachol i'r adroddiad.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi adroddiad perfformiad Rheoli'r Trysorlys.

### 33 : ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol - Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys, Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2018/19, cyn ei gyflwyno i'r Cyngor. Paratowyd yr adroddiad yn unol â Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Pwyllgor eisoes wedi gwerthuso prif gynnwys yr Adroddiad Blynyddol mewn adroddiadau Rheoli Trysorlys a pherfformiad blaenorol.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar y cyfrifiadau a'r data hanesyddol a ddefnyddiwyd i werthuso tebygolrwydd diffyg mewn perthynas â buddsoddiadau, yn enwedig y defnydd o ddata hanesyddol. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod ymgynghorwyr trysorlys yr awdurdod yn edrych ar y risg hanesyddol o fethu â chydymffurfio mewn amryw o sefydliadau ariannol, ond mae'r tebygolrwydd ohono yn isel. Mae'r un cymarebau hynny'n berthnasol i'r daliadau sydd gan yr awdurdod. Gofynnodd Aelod am gadarnhad bod y data a ddefnyddiwyd yn deillio o ffynonellau eraill, a dywedwyd wrtho fod ymgynghorwyr y trysorlys yn dyfeisio'r broses a'r fethodoleg.

Nododd Aelod fod yr ystod o drothwy a therfynau trwy gydol yr adroddiad a gofynnodd a oedd y rhain wedi bod yn destun archwiliad allanol. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol nad oedd y terfynau a'r dangosyddion yn destun archwiliad allanol ond roedd yn ymwybodol bod cydweithwyr yn yr adran Archwilio Mewnol yn ystyried y rhain.

Gofynnodd Aelod am derfyn fforddiadwy costau cyllido cyfalaf o ran ei gyfran o'r gyllideb y gellir ei rheoli, a dywedwyd wrtho nad oes gan yr awdurdod derfyn uchaf. Wrth osod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig cynhelir asesiad o'r hyn sydd ar gael ar gyfer cyllido cyfalaf gan ystyried pwysau sy'n dod i'r amlwg ar y gyllideb refeniw. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau fod y dangosydd y manylir arno yn yr adroddiad wedi'i gynllunio i olrhain newidiadau dros amser. Gofynnodd yr aelodau a oedd data meincnodi ar gael, a dywedwyd wrthynt y bydd argaeledd gwybodaeth gymharol yn cael ei ystyried.

PENDERFYNWYD - Bod:

- (1) Y dylid nodi'r adroddiad;
- (2) RhG y Trysorlys i adolygu argaeledd meincnodi ar Gostau Ariannu Cyfalaf fel canran o'r gyllideb, ac i dynnu sylw at unrhyw risgiau o gymharu mewn adroddiad yn y dyfodol.

#### 34 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y TÎM ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio adroddiad cynnydd yr Archwiliad Mewnol. Paratowyd yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith yr Archwiliad Mewnol ar 16 Awst 2019 ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo archwiliadau sicrwydd o'r Gwasanaethau Troli a Gwerth am Arian mewn Mentrau Digidol ar gyfer Cynllun Archwilio 2019/20.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad o'r rhesymeg dros ddefnyddio diwrnodau archwilio heb eu dyrannu i archwilio'r system ar gyfer casglu troliâu siopa wedi'u gadael. Dywedodd y Rheolwr Archwilio nad yw'r system wedi cael ei harchwilio o'r blaen a'i bod yn faes lle gofynnwyd am sicrwydd gan y gwasanaeth. Cytunodd y Rheolwr Archwilio i gylchredeg incwm sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth Trolis er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Gofynnodd yr aelodau a fyddai asesiad risg o'r gwasanaeth yn cael ei gynnal ac a fyddai angen y 15 diwrnod a ddyrannwyd ar gyfer yr archwiliad. Dywedodd y Rheolwr Archwilio bod 15 diwrnod wedi'i ddyrannu, felly mae gallu i gyflawni'r archwiliad yn llawn. Bydd yr amser gwirioneddol yn cael ei bennu trwy asesiad o'r systemau sydd ar waith a risg fel rhan o'r asesiad rhagarweiniol, ac ar yr adeg honno efallai na fydd angen y 15 diwrnod llawn.

Gofynnodd yr aelodau am fanylion yr amserlen ar gyfer datrys y materion yn y Gwasanaeth Cerddoriaeth, er mwyn i gamau gweithredu gael eu gweithredu ac i'r gwasanaeth weithredu'n ddigonol. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio fod y rheolwyr yn ymrwmo i weithredu camau gweithredu yn ystod y flwyddyn galendr. Byddai archwiliad dilynol yn cael ei gynnal cyn pen chwe mis.

PENDERFYNWYD - Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio gan fod y wybodaeth sydd i'w thrafod yn gyfrinachol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig yn unol â'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gall y cyhoedd cael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ar yr eitemau hyn.

Gofynnodd yr Aelodau i'r Cadeirydd ysgrifennu at Gyfarwyddwyr lle y bu oedi sylweddol wrth weithredu argymhellion 'coch' a rhai 'coch/ambr', i ofyn am esboniad am y rhesymau dros hyn, ac ymrwymiad ac amserlen ar gyfer cyflawni.

Gofynnodd yr aelodau hefyd am i raglen waith y Pwyllgor Archwilio gael ei haddasu i wahodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau i gyfarfod cynharach na'r disgwyl mewn perthynas ag amgylchedd rheoli'r gyfarwyddiaeth.

PENDERFYNWYD - Bod:

- (1) Y dylid nodi'r adroddiad;
- (2) Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo archwiliadau sicrwydd ar gyfer y Gwasanaeth Trolï a Gwerth am Arian mewn Mentrau Digidol ar gyfer Cynllun Archwilio 2019/20.
- (3) Rheolwr Archwilio i gylchredeg gwybodaeth incwm sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth Trolï.
- (4) Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i ysgrifennu at Gyfarwyddwyr y bu oedi sylweddol iddynt wrth weithredu argymhellion 'coch' a rhai 'coch/ambr', i ofyn am esboniad am y rhesymau dros hyn, ac ymrwymiad ac amserlen ar gyfer cyflawni.
- (5) Addasu rhaglen waith y Pwyllgor Archwilio er mwyn gwahodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau i gyfarfod cynharach na'r bwriad mewn perthynas ag amgylchedd rheoli'r gyfarwyddiaeth.

### 35 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y TÎM YMCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Adroddiad Cynnydd y Tîm Ymchwilio. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariad ar yr ymchwiliad o fewn y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff, hyfforddiant gorfodol o ran ymwybyddiaeth twyll i swyddogion, recriwtio ymchwilydd newydd, a nifer yr ymchwiliadau cyfredol a gwerth ymchwiliadau adweithiol a ddaeth i ben.

Gofynnodd Aelod faint o botensial oedd ar gyfer twyll a pha feysydd oedd yn cael eu targedu. Dywedodd y Rheolwr Archwilio bod y Strategaeth Atal Twyll a Llygredd wedi'i chyflwyno yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor, sy'n nodi'r meysydd risg uchel a chyfeintiau a gwerthoedd twyll cymharol, yn seiliedig ar dueddiadau cenedlaethol yn Awdurdodau lleol y DU. Dywedwyd wrth yr aelodau mai'r gwaith rhagweithiol sylfaenol sydd ar y gweill yw'r hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth twyll ar draws y Cyngor, sy'n cael ei atgyfnerthu gan hyfforddiant wyneb yn wyneb ar gyfer



swyddogion rheng flaen, a thrwy gymryd rhan yn yr wythnos Ymwybyddiaeth Twyll Ryngwladol ym mis Tachwedd 2019.

Gofynnwyd i'r Rheolwr Archwilio roi sylwadau ar sut beth fyddai llwyddiant yn y maes hwn; a nododd y byddai llwyddiant yn cyflawni ac yn cynnal sefydliad sy'n ymwybodol o risg o ran atal twyll.

Dywedodd Sara-Jane Bryne y byddai SAC yn edrych ar drefniadau Atal Twyll ar draws holl Awdurdodau Lleol Cymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar ôl cyhoeddi adroddiad ar y mater hwn.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

### 36 : GOHEBIAETH GRAFFU

Ni chyflwynwyd unrhyw ohebiaeth â Chadeiryddion Craffu.

### 37 : CAMAU SY'N WEDDILL

Nodwyd y gweithredoedd oedd heb eu cyflawni.

### 38 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

Nodwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor.

### 39 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni chafodd unrhyw eitemau brys eu cyflwyno.

### 40 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Tachwedd 2019.

Cyllid  
Swyddfa Archwilio Cymru  
Rheolaeth Trysorlys  
Llywodraethiant a Rheoli Risg  
Archwilio Mewnol  
Materion Gweithredol

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm